# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll



Nos Fawrth 14eg o Ionawr, 2020 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **<u>Presenoldeb</u>**<br><br>**Presennol -** Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GJ),** Gwilym Williams **(GW)**, Lizbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Olwen Roberts **(OR),** John Owen **(JO),** William Jones **(WJ).**<br><br>**Ymddiheuriadau -** Emlyn Hughes **(EH)**, Cyng. Aled Jones **(AJ).** |
| **2.** | | **<u>Hysbysiadau'r Cadeirydd</u>**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod  gan ddymuno blwyddyn newydd dda i oll. |
| **3.** | | **<u>Datgan Diddordeb</u>**<br><br>Dim |
| **4.** | | **<u>Diweddariadau asedau</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau |
| **5.** | <br><br>***5.1***<br><br><br>***5.2*** | **<u>Cofnodion Cyfarfod Rhagfyr, 2019</u>**<br><br>**Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **YE** gywirdeb y cofnodion, eiliodd **GW** a chytunodd pawb.<br><br>**Materion yn codi**<br><br>**Materion Lleol**<br>Nodwyd **SP** nad oedd y gordyfiant ar wal y bont sef terfyn yr Hen Eglwys Llithfaen wedi ei dorri, esboniodd y Clerc ei bod wedi derbyn yr ymateb canlynol gan adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd -<br><br><u>1. Hen Eglwys Llithfaen</u><br>Mae deilydd/perchennog yr eiddo wedi derbyn llythyr yn tynnu ei sylw at yr angen iddynt docio'r gordyfiant.<br><u>2. Uwchlaw Bryn Celyn Uchaf</u><br>Mae'r Uned Gwaith stryd wedi cysylltu gyda chontractwr Telecom Prydeinig (BT) i hysbysu fod difrod wedi ei achosi yn sgil ei gwaith tyllu i bibell ddŵr ar wyneb yn y brifforddd. Ar hyn o bryd fel y gwyddoch mai'r cynllyn walio yn mynd yn ei flaen gyferbyn. Pan fydd y gwaith hwnnw wedi ei gwblhau fe ryddha hyn o safbwynt rheolaeth traffig, y cyfle i eraill |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad.....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | | weithio yn y briffordd, megis y gwaith atgyweirio sy'n aros gan gontractwr BT.<br><u>3. Uwchlaw Ty'n Y Cae</u><br>Fe ystyrir os gellir ychwanegu at y system draenio yma. Fe archwilir y safle yn fanwl yn gyntaf.<br><u>4. Gyferbyn a Maes Parcio'r Vic</u><br>Fe geisiwn ochri'r ymylon glas er cyfeirio'r dŵr i'r ymyl. Ar ôl cyfnod estynedig wlyb fel yn ddiweddar mae tueddiad fod dŵr tir yn codi i'r wyneb yma. Yn anffodus nid oes arllwysfa addas yn lleol. Er enghraifft er galluogi paratoi gwaith draenio am gost resymol.<br><br>**Gwersylla yn y maes parcio**<br>Nodwyd **GJ** bod gwersylla yn parhau ar y safle – gweler pwynt 9.<br><br>**Y Ganolfan**<br>Esboniodd y Clerc bod ei rhagflaenydd wedi cadarnhau nad oedd unigolyn annibynnol cyfreithiol wedi cael golwg ar y les oni bai am gyfreithwyr Cyngor Gwynedd, aeth ymlaen i esbonio fod rhai sylwadau personol i'w dderbyn ganddo a bydd yn ei rhannu gyda'r aelodau.<br>Yn dilyn trafodaeth bellach ar y mater penderfynwyd bydd y Cynghorwyr yn mynd drwyddo yn fanwl cyn gwneud penderfyniad yn y cyfarfod nesaf. |
| **6.** | | **<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**<br><br>Dim. |
| **7.** | | **<u>Y Ganolfan</u>**<br><br>Esboniodd **SP** fod y Ganolfan yng nghanol gael ei pheintio, aeth ymlaen i ofyn a oedd posib gwared â'r cypyrddau sy'n cael eu defnyddio i gadw dogfennau'r Cyngor Cymuned a throsglwyddo'r dogfennau i'r Archifdy yng Nghaernarfon. Yn dilyn trafodaeth cynigiodd **LJ** gefnogi'r cais, cytunodd pawb. Bydd **SP** yn gwneud ymholiadau gyda'r Archifdu i beth byddent yn fodlon eu derbyn. Bydd trefniadau i'w wneud yng nghyfarfod mis nesaf er mwyn cyfarfod i fynd drwyddo. |
| **8.** | | **<u>Twmpathau ar y ffordd ar lon y Nant</u>**<br><br>Yn dilyn y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc wedi cysylltu ag Adran Briodol Cyngor Gwynedd yn gwneud ymholiadau am bosibilrwydd i gael twmpathau ar y lon, derbyniwyd ymateb yn esbonio gydag unrhyw gais am welliannau diogelwch y ffyrdd , fydd rhaid ystyried y cais ar sail tystiolaeth. H.y. nifer o ddamweiniau hanesyddol, llif a chyflymder traffig. Felly I'r perwyl hyn, bydd yr adran yn trefnu gosod cyfarpar mesur traffig ar y lon er mwyn casglu'r dystiolaeth angenrheidiol. |
| **9.** | | **<u>Arwyddion Dwyieithog Dim Gwersylla a Dim Ysbwriel yn y Maes Parcio ar dop y Nant</u>**<br><br>Cofnodwyd y Clerc yn y cyfarfod diwethaf bod penderfyniad gwared â'r biniau ar y safle yn gyfan gwbl wedi ei wneud, trafodwyd y mater ymhellach a phenderfynwyd peidio â gwared â'r bin sydd ar y safle yn bresennol am y tro.<br><br>Roedd y Clerc wedi derbyn pris gan Gyngor Gwynedd ac Snowdonia Design am arwyddion i'r maes parcio, penderfynwyd mynd gyda Snowdonia Design ac archebu un arwydd maint A2. |

*Llofnodwyd gan...........................................................................................Dyddiad.....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | | **<u>Materion Lleol</u>**<br><br>**Tramwyo i'r Nant**<br>Trafodwyd pryderon tramwyo i'r cyhoedd i Nant Gwytheurn a phryderon fod y giât yn cael ei chloi. Penderfynwyd llythyru a'r Nant yn gofyn a oedd eu hawliau tramwyo wedi eu newid. - Y Clerc i drefnu.<br><br>**Rhaglen S4C**<br>Esboniodd **SP** bod Rhaglen S4C yn cael ei chynnal yn y Ganolfan ar Chwefror 13 sef Sioe Fach Fawr Llithfaen a gofynnodd yn garedig i'r aelodau ddarganfod trigolion lleol gyda diddored perfformio.<br><br>**Baw Ci**<br>Esboniodd **SW** bod baw ci yn parhau i fod yn annioddefol yn y pentref. Cynigiodd **SP** i'r Cyngor fynd ati i archebu'r biniau a chytunwyd mewn cyfarfodydd blaenorol, eiliodd **LJ** a chytunodd pawb.<br>**SP** i hysbysu'r trigolion eto yn llythyr Llithfaen a'r Clerc i fynd ati i archebu 3 bin. Bydd **GJ** wedyn yn trefnu eu gosod yn waelod Ffordd y Plas, dros lon i gapel Tabor a rhwng y tai Cyngor a West End. |
| **11.** | <br><br>***11.1***<br><br>***11.2*** | **<u>Gohebiaeth a Gwybodaeth</u>**<br><br>**Cylchlythyr Cysylltu Cymunedau yng Nghymru**<br>Awgrymodd **SP** i gysylltu i'w hysbysebu nid yw'r Cyngor yn derbyn gohebiaeth Saesneg.<br>**Cais am rodd gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru**<br>Cynigiodd **SP** i'r Cyngor gysidro gefnogi Pwyllgor Apel yr Eisteddfod. |
| **12.** | <br><br>***12.1***<br><br><br><br><br>***12.2***<br><br><br><br><br><br><br><br><br>***12.3***<br><br><br><br>***12.4*** | **<u>Cyllid</u>**<br><br>**Cyfrifon**<br>Rhannwyd y Cyfrifon i'r Aelodau o flaen llaw. Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20.<br>Cynigiodd SW eu cywirdeb, eiliodd YE a chytunodd pawb.<br><br>**Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br>Taliadau - £160.00 - Cyflog Clerc<br>£ 14.80 - Treuliau Clerc<br>£156.00 – Archwilwyr Mewnol<br>*Balans -* *<u>£7141,87</u>*<br><br>**<u>Cyfrif Cadw</u>**<br>*Balans -* *<u>£3406.36</u>*<br><br>**Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br>£160.00 Cyflog Clerc<br>£12.55 Treuliau Clerc<br><br>**Cais gan y Clerc i newid Llofnodwyr**<br>Gan fod problem wedi bod yn ddiweddar gydag absenoldeb llofnodwyr y sieciau yn ystod y Cyfarfod gofynnodd y Clerc os oedd posib ychwanegu neu newid y llofnodwyr yn y banc.<br>Penderfynwyd a chytuno **LJ** ac **GJ** wneud trefniadau i ychwanegu eu henwau gan fod eu presenoldeb mewn cyfarfodydd yn gyson. |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | ***12.5*** | **Cais gan y Clerc am gyfraniad tuag at Office 365**<br>Atgoffwyd yr Aelodau bod y Clerc wedi gwneud cais yn flaenorol rhai misoedd yn ôl ond ei bod wedi anghofio eu hychwanegu i'r cyfrifon.<br>Cytunwyd bydd taliadau o £4.00 yn cael eu hychwanegu i dreuliau'r Clerc yn fisol. |
| **13.** | | **<u>Dyddiad y Cyfarfod nesaf</u>**<br>11eg o Chwefror, 2020 |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad......................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*